**Cofnodion: Y Grŵp Trawsbleidiol ar Addysg Bellach**

**a Sgiliau'r Dyfodol**

**8 Rhagfyr 2021, 09:30 (Cyfarfod rhithwir)**

**Pwnc: Cydraddoldeb Hiliol ac Addysg Bellach**

**Agenda**

Croeso, cyflwyniadau a threfniadau ymarferol – Rachel Bowen

Sylwadau agoriadol a dechrau'r cyfarfod yn ffurfiol – John Griffiths AS

- Gwaith y Black FE Leadership Group a llwyddiannau nodedig hyd yn hyn – Robin Landman OBE, BFELG
- Gwaith Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales ar wrth-hiliaeth ym maes dysgu oedolion yn y gymuned – Kathryn Robson, Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales
- Dull Coleg Caerdydd a'r Fro o gynyddu amrywiaeth a herio hiliaeth – Mike James, Coleg Caerdydd a'r Fro

Trafodaeth banel a sesiwn hawl i holi, o dan gadeiryddiaeth John Griffiths AS

Cau'r cyfarfod – John Griffiths AS

**Digwyddiad**

Ail-etholwyd John Griffiths AS yn Gadeirydd y grŵp trawsbleidiol, a ColegauCymru yn ysgrifenyddiaeth
– enwebiadau gan Luke Fletcher AS a Jennifer Ramsay.

Bu ymgysylltiad cadarnhaol yn ystod y digwyddiad drwy'r swyddogaeth 'Sgwrsio' yn Zoom, gydag ystod o sylwadau a chwestiynau yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r sesiwn hawl i holi. Anogwyd cyfranogwyr i gyflwyno cwestiynau yn Gymraeg. Roedd y materion a godwyd yn cynnwys amrywiaeth y panel, barn a phrofiadau dysgwyr, iaith a therminoleg, a gwrth-hiliaeth yn y cwricwlwm.

Ymunodd tua 50 o gyfranogwyr â'r digwyddiad, gydag oddeutu 80 o bobl wedi cofrestru ymlaen llaw. Yn seiliedig ar drafodaethau anffurfiol, ymddengys bod hyn yn gyson â chyfradd yr absenoldebau ar gyfer digwyddiadau ar-lein am ddim. Mae cofnod o'r digwyddiad hwn, ynghyd â'r digwyddiad i lansio partneriaeth BFELG a ColegauCymru ar 1 Rhagfyr 2021, ar gael ar wefan ColegauCymru hefyd: [https://www.colleges.wales/cy/blog/post/fe-sector-commits-to-progressing-anti-racist-wales-agenda](https://www.colleges.wales/cy/blog/post/fe-sector-commits-to-progressing-anti-racist-wales-agenda) .

Yn dilyn y digwyddiad, drwy'r bartneriaeth swyddogol, bydd ColegauCymru a BFELG yn parhau i weithio gyda'i gilydd i fwrw ymlaen â'r agenda wrth-hiliaeth yng Nghymru.

**Goblygiadau ariannol**

Dim, y tu hwnt i gostau trwydded Zoom a chostau staff.